

Ysgol Bro Dyfrdwy
Safle Cynwyd
Cynwyd
Corwen
Sir Ddinbych
LL21 0LG

13/11/2025

Annwyl arweinwyr a staff

Ymweliad Interim: Tachwedd 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Bro Dyfrdwy yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas â dau argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Manteisiodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennaeth, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

Ffocws yr ymweliad

Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion wneud penderfyniadau am sut maent yn trefnu a chyflwyno eu gwaith, a meddwl drostynt eu hunain sut maent yn ymateb i dasgau dysgu

- Mae staff yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion wneud penderfyniadau cyson am eu dysgu yn gynyddol annibynnol o oedran cynnar. Erbyn brig yr ysgol, mae staff yn darparu cyfleoedd ystyrion i ddisgyblion wneud dewisiadau gwybodus am y dull gorau i gyflwyno eu gwaith i gynulleidfa.
- Wrth i fedrau'r disgyblion aeddfedu, mae staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr a chyson i ddisgyblion bennu eu meini prawf llwyddiant eu hunain yn lled annibynnol. Mae hyn yn cryfhau perchnogaeth disgyblion dros eu dysgu yn llwyddiannus.
- Gwna staff ddefnydd effeithiol a chreadigol o'r ystafelloedd dosbarth a'r ardaloedd allanol, gan gynnwys yr ardal goedwig, i gynnig cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion fireinio a chymhwyso eu medrau yn annibynnol mewn amrywiaeth o gyd-destunau dilys a diddorol.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd,
CF24 5JW Ffôn: 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru
www.estyn.llyw.cymru

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn, Anchor Court, Keen Road,
Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920
446446 enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.gov.wales

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

- Mae disgyblion yn defnyddio ystod gyfoethog o adnoddau o fewn yr amgylcheddau dysgu deniadol yn lled annibynnol i ymestyn eu dysgu a'u chwarae yn fwriadus.
- Arfer gyson ar draws yr holl ddarpariaeth yw'r modd mae disgyblion yn cyfrannu'n adeiladol at eu dysgu. Maent yn cynnig syniadau defnyddiol yn gynyddol annibynnol am yr hyn maent eisoes yn ei wybod a'r hyn yr hoffent ei ddysgu ymhellach yn ystod eu themâu tymhorol.
- Mae staff yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddewis lefel yr her ar gyfer gwahanol weithgareddau dysgu yn gynyddol annibynnol. Wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf yn dangos dealltwriaeth aeddfed o bwysigrwydd dewis a dethol y gweithgaredd dysgu sydd â'r her a'r disgwyliadau mwyaf addas i ymestyn eu dysgu personol ymhellach.
- Mae arweinwyr a staff yn gwerthuso ac yn mireinio eu dulliau cynllunio ac addysgu yn fwriadus er mwyn darparu cyfleoedd cyson a chreadigol i ddisgyblion feithrin eu medrau yn annibynnol dros amser.

Darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

- Ers yr arolygiad craidd, mae staff wedi cydweithio'n effeithiol er mwyn darparu cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion gymhwyso eu medrau mathemateg. Maent yn darparu trawstoriad eang o gyfleoedd sy'n herio'r disgyblion yn briodol i ddefnyddio cysyniadau rhif amrywiol mewn ystod dda o gyd-destunau dysgu.
- Mae'r ddarpariaeth o fewn yr ardaloedd dysgu, y tu fewn a thu allan i'r adeilad, yn gyfoethog ac yn cynnig cyfleoedd buddiol i'r disgyblion ieuengaf gymhwyso eu medrau mathemateg yn gyson.
- Mae staff yn gofalu bod offer ymarferol ar gael yn gyson i ddisgyblion ei ddefnyddio yn annibynnol. Gwnânt ddefnydd hynod effeithiol o ardaloedd coedwig yr ysgol ar gyfer cynllunio gweithgareddau perthnasol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau trwy brofiadau ymarferol a chreadigol gwerthfawr.
- Erbyn brig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso eu dealltwriaeth o rif yn llwyddiannus mewn gweithgareddau rhifedd priodol. Maent yn creu cysylltiadau pwrpasol o fewn eu gwaith rhifedd, sy'n eu cefnogi'n bwrpasol i ddatrys problemau yn effeithiol.
- Mae'r disgyblion hynaf yn trafod eu dysgu yn fedrus ac yn egluro'n glir sut maent yn cymhwyso'u dealltwriaeth o rifedd a'u medrau datrys problemau ar draws y meysydd dysgu.
- Mae arweinwyr wedi datblygu ystod o ddulliau asesu cadarn i olrhain cynnydd disgyblion mewn mathemateg a rhifedd. Mae hyn, yn ei dro, yn cefnogi athrawon i adnabod unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth ac i gynllunio profiadau dysgu ystyrlon er mwyn diwallu anghenion disgyblion yn effeithiol.

- Mae cyfleoedd dysgu proffesiynol buddiol yn cynorthwyo staff i feithrin gwell dealltwriaeth o'r angen i ddarparu cyfleoedd dysgu ystyrlon sy'n caniatáu disgyblion i gymhwyso eu medrau yn gyson. Maent wedi defnyddio'r ddealltwriaeth hon yn bwrpasol i wneud addasiadau priodol i'r addysgeg a'r ddarpariaeth er mwyn cryfhau profiadau dysgu disgyblion ymhellach.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:

<http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6632267>

Yn gywir



Liz Miles

Cyfarwyddwr Cynorthwyol